**YSGOL PENCAE**
Highfields, Gilian Road
Llandaf, Caerdydd
CF5 2QA
Ffôn: 029 20563851
Ebost: ysgolpencae@cardiff.gov.uk

@ pencae2
Dilynwch ni ar Trydar
*Follow us on Twitter*

**Cylchlythyr Rhif 21/*Newsletter No 21***
**15.02.19**

Annwyl Riant neu Warcheidwad / *Dear Parent or Guardian,*

## Gweithdy Cadwch Gymru'n Daclus / *Keep Wales Tidy Workshop*

Roedd cynnwrf mawr ym mlwyddyn 3 ddydd Llun wrth iddyn nhw gydweithio gyda Cadwch Gymru'n Daclus. Roedden nhw yn dysgu sut i ddiogelu'r ysgol rhag llifogydd. Mae gwaith caled o'u blaenau yn ystod yr wythnosau nesaf wrth iddyn nhw ddatblygu rhannau o'r ysgol er mwyn casglu dŵr y glaw. Diolch i'r Arwyr Eco am drefnu'r gweithdy yma.

*There was great excitement in year 3 on Monday as they had a workshop with Keep Wales Tidy. They were learning how to protect the school from floods. They will be working hard in the coming weeks developing the school grounds in order to collect the rain water. Thanks to the Eco Heroes for organising this workshop.*

## Chwaraeon / *Sports*

Llongyfarchiadau i'r disgyblion a chwaraeodd bêl-droed yn erbyn Ysgol Bro Eirwg neithiwr. Llwyddiant unwaith yn rhagor gyda'r ddwy ysgol yn ennill gêm yr un.
Llongyfarchiadau hefyd i Mali-Mai George a oedd yn sglefrio'n gydamseredig yn yr Alban. Daeth hi a'i thîm yn drydydd yn y gystadleuaeth.

*Congratulations to the football team who played against Ysgol Bro Eirwg last night. Both schools won a game each – gwych!*
*Mali-Mai George also had a busy weekend as she competed in a synchronised skating competition in Scotland. She along with her team performed excellently and came third in the competition.*

## Ymweliad PC Cross / *PC Cross' Visit*

Daeth PC Cross i ymweld â dosbarthiadau cyfnod allweddol 2 gan rannu llawer o negeseuon pwysig. Roedd ei gwasanaeth yn hynod ddefnyddiol wrth iddi ein hatgoffa ni o ddiogelwch wrth ddefnyddio'r we. O ganlyniad byddwn yn ffurfio Pwyllgor Diogelwch ar y We yn y dyfodol agos a byddan nhw yn rhannu negeseuon yn gyson gyda chi trwy gyfrwng y cylchlythyr.

*Key stage 2 pupils met PC Cross this week as she visited all the classes to share various important messages. Her assembly was extremely helpful in reminding us of how to use the internet safely. As a result we will be forming an Internet Safety committee in the near future and they will be*



PSQM
Primary Science Quality Mark
Valid 2018 - 2021
SILVER AWARD

*sharing tips with you through this newsletter. We will start this week with a very useful tip by PC Cross.*



**TOP TIP Diogelwch y We PC Cross**
***PC Cross' Internet Safety TOP TIP***



| | |
|---|---|
| Pan fo plant yn chwilio ar y we, defnyddiwch borwyr chwilio addas i blant. Mae'r rhain yn sicrhau nad oes deunydd anaddas yn ymddangos. | *When children are searching the web, use children friendly search engines. These block inappropriate content:* |

KidzSearch Google Custom Search




YAHOOLIGANS! The Web Guide for Kids

## Ffair yr Arweinwyr Digidiol / *Digital Leaders Fair*

Dydd Iau nesaf (21ain o Chwefror), mae'r Arweinwyr Digidol yn eich gwahodd i'r ysgol rhwng 3 a 4.30 lle byddan nhw yn eich hyfforddi i ddefnyddio gwahanol fathau o dechnoleg – o dynnu lluniau i osod eich di-wifr yn gywir a diogel. Dewch yn llu a chofiwch ddod ag unrhywun a fyddai'n elwa!

*Next Thursday (21st of February), the Digital Leaders invite you to school between 3pm and 4.30pm where they will help you use various different kinds of technology – from taking pictures to setting your Wi-Fi correctly and safely. Come and join us and remember to bring anyone that would benefit.*

## Gŵyl Ddewi / *St David's Day*

Bydd ein hwythnos cyntaf yn ôl wedi hanner tymor yn wythnos dathlu Cymreictod. Bydd cyngerdd gan ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen ac Eisteddfod Ysgol Pencae!
**05.03.19**, **9.15am**: Cyngerdd Cyfnod Sylfaen – mae croeso i deuluoedd y Dosbarth Derbyn ymuno gyda ni.
**11.03.19 –** Eisteddfod Ysgol Pencae (mwy o fanylion i ddilyn)

*Our first week back will be a week of celebrating all things Welsh. The Foundation Phase will be performing a concert and we will be holding our very own Eisteddfod!*
***05.03.19**, **9.15am**: Foundation Phase Concert – The Reception Class families can join us.*
**11.03.19 –***Ysgol Pencae Eisteddfod (more information to follow)*



PSQM Primary Science Quality Mark Valid 2018 - 2021 SILVER AWARD

## Cystadlaethau Perfformio yr Eisteddfod / Eisteddfod Performing Activities

Pe ddymunech i'ch plentyn gystadlu mewn unrhyw gystadleuaeth unigol, cofiwch ddanfon y llythyr yn ôl er mwyn derbyn copi. Bydd yn rhaid i ni dderbyn yr enwau erbyn **Dydd Llun, 18.02.19** er mwyn cofrestru'r plant.

**Does dim modd cofrestru neb sydd ddim yn aelod o'r Urdd**

*If you want your child to compete in any individual competition, remember to send back the letter to receive the copy. We will need all the names in by **Monday, 18.02.19** in order to register them to compete.*

***We can not register anyone that is not a member of the Urdd***

## *Clybiau Ar Ôl Ysgol* / After School Clubs

| **Wythnos / *Week:* 15.02.19** | **Clybiau / Clubs** | | |
|---|---|---|---|
| **Dydd Llun** | **NOSON SINEMA CRhA / *PTA CINEMA NIGHT*** | | |
| **Dydd Mawrth** | **15.30pm – 16.30pm**<br>Clwb Pêl-droed / *Football Club*<br>(Cymysg / Mixed Bl3-6) | **15.30pm – 16.30pm**<br>Dancefit<br>(aelodau yn unig / *members only*) | |
| **Dydd Mercher** | **15.30pm – 16.30pm**<br>Jiwdo / *Judo*<br>(aelodau yn unig / *members only*) | **15.30pm – 16.30pm**<br>Côr / *Choir* | |
| **Dydd Iau** | **15.30pm – 16.30pm**<br>Clwb Hwb<br>(aelodau yn unig / *members only*) | **15.30pm – 16.30pm**<br>Clwb Ffrangeg<br>(aelodau yn unig / *members only*) | **15.30pm – 16.30pm**<br>Clwb Pêl-rwyd<br>*Netball Club*<br>(Cymysg / Mixed Bl3-6) |
| **Dydd Gwener** | **15.30pm – 17.00pm**<br>Cyflwyniad Dramatig / *Dramatic Performance*<br>Aelodau yn unig / *Members only* | | |

## Dyddiadau pwysig / *Important dates*

| ***Dyddiad / Date*** | **Gweithgaredd / *Activity*** |
|---|---|
| *18.02.19* | CRhA / *PTA*: Noson Ffilm / *Film Night* |
| *25.02.19 – 01.03.19* | Hanner Tymor / *Half Term* |
| *05.03.19* ***9.15am*** | Cyngerdd Gŵyl Ddewi Y Cyfnod Sylfaen<br>*The Foundation Phase St David's Day Concert* |
| *11.03.19* | Eisteddfod Ysgol Pencae |
| *12.03.19* | Eisteddfod Ddawns Caerdydd *Dance Eisteddfod* |
| *14.03.19* | Eisteddfod offerynnol (yn ystod y diwrnod ysgol)<br>*Instrumental Eisteddfod(during the school day)* |
| *18.03.19* ***6.30pm*** | Blwyddyn 4: Cyflwyniad Maes y Fron *presentation* |
| *22.03.19* **2.50pm** | Gwasanaeth Agored / *Open Assembly* |
| *23.03.19* | Eisteddfod Gylch Yr Urdd - mwy o fanylion i ddilyn<br>*Area Urdd Eisteddfod – more details to follow* |

| | |
|---|---|
| *27.03.19 & 28.03.19* | Noson Rieni: Dosbarth Derbyn – Blwyddyn 6<br>*Parents Evening: Dosbarth Derbyn – Year 6* |
| *06.04.19* | Eisteddfod Sir yr Urdd – mwy  o fanylion i ddilyn<br>*County Urdd Eisteddfod – more details to follow* |
| 10.04.19 – 12.04.19 | B4 – Maes y Fron |
| 29.04.19 | Dyddiad cau Celf a Chrefft yr Urdd<br>*Closing date for the Arts and Crafts Urdd Competition* |
| 27.05.19 – 01.06.19 | Hanner Tymor Sulgwyn – Eisteddfod yr Urdd Caerdydd<br>*Whitsun Half Term – Eisteddfod yr Urdd in Cardiff* |
| 07.05.19 – 14.05.19 | B2 – B6: Profion Cenedlaethol/ *National Tests* |
| *28.06.19* | Mabolgampau / *Sports Day* |
| *01.07.19 – 04.07.19* | Wythnos Feicio Bl5 / *Yr5 Cycling Week* |
| 19.07.19 | Diwrnod olaf y flwyddyn academaidd / *Last day of the academic year* |

Siwan Dafydd
Pennaeth Dros Dro



PSQM
Primary Science Quality Mark
Valid 2018 - 2021
SILVER AWARD